# Cynnwys ar-lein a ddefnyddir wrth gyflawni twyll – argaeledd trwy wasanaethau chwilio

Adroddiad ymchwil Ofcom

**Adroddiad**

Cyhoeddwyd 18 Medi 2023

# Cynnwys

## Adran

1. Trosolwg ........ 3

# 1. Trosolwg

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canfyddiadau ymchwil gan Ofcom ar fodolaeth cynnwys, sydd ar gael trwy wasanaethau chwilio cyffredinol[1], sy'n ymwneud â chynigion i gyflenwi erthyglau (gwybodaeth neu eitemau) i'w defnyddio wrth gyflawni twyll ('y drosedd').[2]

Mae'r adroddiad yn disgrifio canlyniadau'r ymchwil hon.

Aeth yr ymchwil ati i ateb pum cwestiwn:

- A yw'r cynnwys sy'n ymwneud â chynigion i gyflenwi erthyglau i'w defnyddio wrth gyflawni twyll ar gael yn uniongyrchol mewn canlyniadau chwilio?[3]
- Os felly, pa mor gyffredin yw'r cynnwys gwaharddedig posib hwn o fewn yr 20 canlyniad chwilio cyntaf (neu'r ddwy dudalen gyntaf) a ddarperir gan wasanaethau chwilio?
- Sut mae swyddogaethau gwasanaethau chwilio'n chwarae rhan wrth ddatgelu cynnwys gwaharddedig posib sy'n gysylltiedig â'r drosedd, os o gwbl (e.e. chwiliadau a argymhellir, trefn y canlyniadau chwilio, hysbysebion wedi'u noddi etc.)?
- Sut mae'r atebion i'r cwestiynau uchod yn amrywio rhwng y gwasanaethau chwilio a roddwyd ar brawf, os o gwbl (h.y. Google Search, Bing Search)?
- Pa sylwadau eraill y gellid eu gwneud am y cynnwys gwaharddedig posib sydd ar gael drwy wasanaethau chwilio a allai gefnogi datblygu Codau Ymarfer, y Gofrestr Risgiau ac arweiniad arall (a'r cafeatau i'r sylwadau hyn o ystyried cyfyngiadau'r ymchwil hon)?

Noder bod rhai rhannau o'r adroddiad hwn sy'n cynnwys terminoleg ynghylch twyll ac enghreifftiau o gynnwys wedi'u golygu at ddefnydd cyhoeddus. Mae fersiwn heb ei olygu o'r adroddiad hwn ar gael ar gais.

### Ein canfyddiadau

**Roedd cynnwys sy'n cynnig cyflenwi erthyglau (gwybodaeth neu eitemau) i'w defnyddio wrth gyflawni twyll yn hawdd ddod o hyd iddynt ac yn gyffredin ar Google a Bing**

Dychwelodd ymholiadau chwilio a ddefnyddiwyd yn yr ymchwil hon wmbreth o gynnwys o fewn yr 20 canlyniad chwilio cyntaf a gategoreiddiwyd gennym fel rhai sy'n 'debygol o fod yn waharddedig'[4].

[1] Mae 'gwasanaethau chwilio cyffredinol' yn cyfeirio at y categori o wasanaethau chwilio sy'n darparu cronfa ddata berchnogol o dudalennau gwe wedi'u mynegeio y dewisir canlyniadau chwilio o'u plith. At ddibenion yr ymchwil hon, tybir bod y canfyddiadau hefyd yn berthnasol i wasanaethau chwilio 'ymhellach i lawr y gadwyn' sy'n defnyddio cronfeydd data gwasanaethau chwilio cyffredinol yn ogystal â'u hategu gyda'u mynegeio eu hunain.

[2] Mae hyn yn cyfeirio at y drosedd o wneud neu gyflenwi erthyglau i'w defnyddio mewn twyll o dan adran 7 o Ddeddf Twyll 2006, sy'n "drosedd blaenoriaeth" o dan baragraff 33(c) o Atodlen 7 o'r Bil Diogelwch Ar-lein. O hyn ymlaen, 'y drosedd' fydd yr enw a roddir i gyfeiriadau at y drosedd hon.

[3] Wrth 'ar gael yn uniongyrchol', rydym yn golygu canlyniadau sy'n ymddangos ar ddwy dudalen gyntaf y canlyniadau chwilio, neu'r 20 canlyniad unigol cyntaf, a ddychwelir gan wasanaeth chwilio wrth ymateb i ymholiad a chwiliwyd.

[4] Term a ddatblygwyd yn benodol at ddibenion yr ymchwil hon yw 'tebygol o fod yn waharddedig'. Gellir dod o hyd i esboniad llawn o hyn yn adran 3.3 y ddogfen lawn 'Asesiad o ganlyniadau chwilio a thudalennau gwe'

Ar gyfer rhai termau chwilio, roedd hyn mor uchel â 100% o'r canlyniadau chwilio a'r mwyafrif helaeth (90%) o'r tudalennau gwe cyfatebol a aseswyd.

Heblaw am amlygrwydd cyffredinol y math hwn o gynnwys, mae adolygu'r math o gynnwys y gellid dod o hyd iddo a'r termau chwilio a ddefnyddiwyd i wneud hynny wedi cynhyrchu nifer o fewnwelediadau ychwanegol:

**1. Roedd swyddogaethau gwasanaeth chwilio'n peri'r risg o gyfeirio defnyddwyr tuag at gynnwys sy'n 'debygol o fod yn waharddedig' trwy systemau argymell a phenderfyniadau graddio**

Mewn llawer o achosion ar ôl i allweddair gael ei nodi, argymhellodd peiriannau chwilio ymholiadau chwilio manylach er mwyn darparu canlyniadau mwy perthnasol i'r chwiliwr. Roedd rhai o'r argymhellion hyn yn rhoi'r ymadroddion neu'r iaith benodol sydd eu hangen ar ddefnyddwyr i ddod o hyd i gynigion ymddangosiadol i gyflenwi erthyglau neu eitemau gwaharddedig posib yn fwy effeithiol. Digwyddodd hyn fwyaf pan oedd y chwiliad gwreiddiol yn seiliedig ar dermau slang[5]. Gallai'r nodwedd hon, felly, beri risg ychwanegol o gyrchu cynnwys gwaharddedig.

**2. Ymddangosodd cynnwys a gategoreiddiwyd fel cynnwys sy'n 'debygol o fod yn waharddedig' yn y canlyniadau chwilio a hysbysebwyd**

Dychwelodd y rhan fwyaf o ymholiadau chwilio o leiaf rai canlyniadau chwilio a hysbysebwyd, ac roedd llawer ohonynt wedi'u categoreiddio fel rhai sy'n 'debygol o fod yn waharddedig'. Awgrymodd hyn ei bod yn bosibl prynu hysbysebion sy'n hyrwyddo'r math hwn o gynnwys ar y swyddogaeth cyfnewid hysbysebion a ddarperir gan wasanaethau chwilio. Mae hyn hefyd yn dylanwadu ar ble mae canlyniadau chwilio'n ymddangos yn y ffrwd ganlyniadau a gallai gyfeirio defnyddwyr tuag at y safleoedd hynny yn hytrach na rhai eraill.

**3. Mae gwasanaethau chwilio'n cyfeirio defnyddwyr at gynnwys sy'n 'debygol o fod yn waharddedig' ar wasanaethau o ddefnyddiwr i ddefnyddiwr eraill a allai fod o fewn cwmpas y Bil Diogelwch Ar-lein**

Roedd canlyniadau chwilio a ddadansoddwyd yn y gwaith hwn yn cyfeirio defnyddwyr at ystod o wasanaethau o ddefnyddiwr i ddefnyddiwr a oedd yn lletya cynnwys sy'n gysylltiedig â'r drosedd. Roedd rhywfaint o gynnwys hefyd yn cyfeirio defnyddwyr at ofodau ar-lein eraill sy'n galluogi cyfathrebu un-i-un wedi'i amgryptio i barhau gydag ymgais i brynu erthyglau gwaharddedig posib.

**4. Roedd chwiliadau sy'n defnyddio terminoleg benodol i dwyll i'w gweld yn arwain at rai gwefannau ar y we dywyll**

Dychwelodd nifer o dermau chwilio ddolenni i'r we dywyll o fewn yr 20 canlyniad cyntaf. Mae'n bosib, felly, y bydd defnyddwyr yn gallu cyrchu gwefannau tywyll yn hawdd trwy wasanaethau chwilio. Mae'r gwefannau hyn yn peri risgiau i ddefnyddwyr a'u dyfeisiau o fygythiadau seiber, ac

[5] Gellir cyfeirio at hyn hefyd fel 'iaith sy'n benodol i gymuned' lle mae'r gymuned yn cyfeirio at y rhai sy'n ymwneud â chreu a defnyddio'r math hwn o gynnwys gwaharddedig posib

maent hefyd yn codi pryderon difrifol ynghylch amlygiad posibl i weithgarwch anghyfreithlon pellach oherwydd y gyfradd uwch o weithgarwch anghyfreithlon a maleisus yn y fath ofodau ar-lein.[6]

**5. Arweiniodd slang, iaith wedi'i chodio ac allweddeiriau chwilio neu ymholiadau manylach at gyfran uwch o cynnwys sydd wedi'i gategoreiddio'n gynnwys sy'n 'debygol o fod yn waharddedig'**

Roedd termau slang yn arbennig o effeithiol am ddatgelu cynnwys a oedd yn cael ei gategoreiddio'n gynnwys sy'n 'debygol o fod yn waharddedig' o'i gymharu â defnyddio geiriau neu eiriad cyffredinol, anarbenigol. Mae hyn yn dangos, er bod y fath gynnwys ar gael yn gyffredinol i ddefnyddiwr, ei fod ar gael yn fwy cyffredinol byth os oedd defnyddiwr yn gyfarwydd â therminoleg berthnasol.

[6] Mae defnydd o'r we dywyll ar gyfer gweithgarwch troseddol wedi'i gofnodi'n gymharol dda (er enghraifft, gweler https://www.openaccessgovernment.org/exposing-the-criminal-underground-of-the-dark-web/139277/), ac mae amryw ystadegau a gasglwyd yn awgrymu bod maint y cynnwys y tybir ei fod yn droseddol ei natur ar y we dywyll yn arwyddocaol (er enghraifft, gweler https://blog.gitnux.com/dark-web-crime-statistics).